

# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 14eg 2019 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Rhys Richards, Huw Charles, Jean Roberts, Arwel Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw, Geraint Davies a Gwynfryn Williams.

Cydymdeimlwyd ag Euros Puw a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth a talwyd teyrnged i gyfraniad amhrisiadwy y diweddar Dan Puw i ddiwylliant Penllyn ac yn genedlaethol. Cydymdeimlwyd a Rhys Richards a Geraint Davies yn dilyn ei brofedigaethau hwythau hefyd. Talwyd teyrnged i'r diweddar Sam Jones, cyn glerc y Cyngor, a bu farw yn 104 oed yn ddiweddar.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

## Cyfarfod Blynyddol.

i) Croesawyd Geraint Jones i'r gadair a diolchwyd i Gwynedd Jones am ei waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnwyd i'r clerch gadarnhau gydag Euros Puw os fyddai'n barod i fod yn is-gadeirydd.

### ii) Cyfrifon 2018-19.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2018-19 gan y clerch, a chafwyd hwy yn gywir.

### iii) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerch bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn lle i Gyngor Gwynedd archwilio'r cyfrifon ar y 23ain o Fai.

### iv) Gydabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2019/20.

Derbyniwyd llythyrau gan y cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor o'i dymuniad i beidio derbyn y taliadau statudol a oedd ar gael iddynt.

### v) Adolygu Asedau, Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Cytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Polisi Diogelu Data ac Aseiad Risg presennol yn gywir. Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi fws ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf

### vi) Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.  
Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies a Rhys Richards.

## Cyfarfod Misol.

i) **Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

### ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

#### i) Triathalon Y Bala.

Derbyniwyd gwybodaeth am y trefniadau rheoli traffig ar gyfer penwythnos y triathalon.

#### iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

**a) Cyngor Gwynedd.**

i) Cais i arddangos posteri yn hysbysu'r newidiadau i'r gyfundrefn Lles - Credyd Cynhwysol.

**b) Un Llais Cymru.**

i) Llythyr o ddiolch am ailymaelodi a chais i yrru manylion cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Ardal.

**c) Amrywiol.**

i) CND Cymru - llythyr yn egluro fod y Llywodraeth yn chwilio am gymuned yng Nghymru a fyddai'n 'gwirfoddoli' i leoli gwastraff niwclear. Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried y cynnig o wrthod claddu gwastraff niwclear ac i hysbysu'r CND o'u penderfyniad er mwyn iddynt wneud cofnod o hyn a rhaedru'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru. Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu'r bwriad i leoli unrhyw wastraff niwclear o fewn y gymuned.

ii) Cyfoeth Naturiol Cymru – diweddariad ar y cynlluniau i sicrhau fod Llyn Tegid yn gallu parhau i wrthsefyll digwyddiadau llifogydd eithriadol.

iii) Y Cyfnod - Derbyniwyd cais am wybodaeth leol ar gyfer llyfryn gwybodaeth am Y Bala. Cytunwyd i gynnig i'r golygydd ddefnyddio unrhyw wybodaeth a oedd ar gael ar wefan y Cyngor.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol. Gan nad oedd y Cyngor wedi cyfarfod ym mis Ebrill roedd y clerc wedi cysylltu â'r cynghorwyr i'w trafod a chytunwyd i gefnogi ceisiadau canlynol:-

NP5/72/244 – Codi polyn telegraph. Tir ger cyffordd yr A4212 a B4391, Arenig.

NP5/72/39C – Estyniad i adeilad amaethyddol. Llanerch Las, Maesywaen.

NP5/72/184A - Estyniad i adeilad amaethyddol. Tŷ Draw, Llidiardau.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £2,000

**b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-**

Zurich (Yswiriant).

**c) Ceisiadau ariannol**

Derbyniwyd cais ariannol gan Bobath. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vi) Unrhyw Fater Arall.**

a) Derbyniwyd cais i osod safle bws ger mynedfa Byd Mari Jones. Mynegwyd pryder am ddiogelwch y safle oherwydd y cwynion blaenorol am gerbydau yn goryrru heibio.

ii) Gofynnwyd i'r clerc hysbysu'r Adran Briffyrdd am y tirlithriad ger troad Ffridd Isa, Llidiardau

iii) Gofynnwyd i'r clerc anfon at ddisgyblion Ysgol Bro Tryweryn i'w llongyfarch ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth pêl droed yr Urdd yn ddiweddar.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin  
11eg yn Neuadd Maesywaen am 8.00 y.h.**